

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Cofnodion y Cyfarfod

Dydd Iau, 29 Ebrill 2021

Ar-lein drwy Microsoft Teams, 6pm

Yn Bresennol:

Yr Aelodau:

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol

Karen Burch (KB) - Dirprwy-gadeirydd

Richard Leggett (RL)

Mo Rapley (MR)

Jillie Gardiner (JG)

Paul Barrett (PB)

David Stacey (DS)

Geoff Williams (GW) – materion rhwydwaith ysbeidiol

Ysgrifennydd - Caroline Ferguson (CF) – Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad
Cyngor Sir Gaerfyrddin

Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd

Y Cyngorydd Hazel Evans (HE) - Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd

Andrew Paterson (AP) - Swyddog Tir Comin CSC

Phil Morgan (PM) - Cyfoeth Naturiol Cymru

Ymddiheuriadau: Aelodau:

Michael Jones

Ymgynghorwyr/Sylwedyddion:

Neil Thomas – Uwch-reolwr Hamdden Awyr Agored CSC

Helen Grey – Cyfoeth Naturiol Cymru

*Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir Gaerfyrddin

**Mae CNC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru

EITEM	CMAU GWEITHREDU
<p>Eitemau 1 - Croeso ac Ymddiheuriadau</p> <p>Estynnodd MH groeso i bawb i'r cyfarfod</p>	
<p>Eitem 2 - Aelodau newydd/Ymddiswyddiadau</p> <p>Cyflwynodd MH ymgynghorydd newydd – y Swyddog Tir Comin Andrew Patterson a chroesawodd Phil Morgan yn ôl fel ymgynghorydd CNC. Roedd cais am aelod newydd i'w ystyried - Steve Barratt, a oedd yn ymddiddori'n bennaf mewn beicio mynydd.</p>	
<p>Eitem 3 - Materion yn Codi o'r Cofnodion</p> <p><u>Mapiau Ffyrdd Diddosbarth a Hawliau Tramwy Cyhoeddus</u></p> <p>CF - pan fo Rhestr o Strydoedd ar-lein gellid integreiddio data Ffyrdd Diddosbarth i fapiau Hawliau Tramwy Cyhoeddus hefyd. Roedd angen cwblhau archwiliad Rhestr o Strydoedd yn gyntaf. Bydd gwell system o ran rhoi gwybod am ddiffygion priffyrdd hefyd yn integreiddio â rportio a mapiau Hawliau Tramwy Cyhoeddus.</p> <p>MH – camau cadarnhaol</p> <p>KB - cadarnhaol iawn, a allai rhywun o'r adran Priffyrdd ddangos y system pan fyddai'n barod?</p> <p>MH – prosiect gwirfoddolwyr, heb ei ddatblygu, awgrymwyd Brechfa fel lleoliad prosiect, mae angen arolwg i ddechrau, ond roedd oedi o ran hyn hyd nes bod CAMSweb yn cael ei gyflwyno a'i ddefnyddio.</p> <p>CF - bydd CAMSweb yn cael ei cyflwyno cyn gynted â phosibl, ac roedd yn y camau cymeradwyo terfynol.</p> <p>HE – Ni allai'r Fforwm Mynediad Lleol helpu i gyflymu'r broses ond byddai'n dweud bod y fforwm yn gefnogol.</p> <p><u>Hierarchaeth Rhwydwaith</u></p> <p>CF – Roedd sylwadau'r aelodau wedi cael eu hystyried, a rhoddwyd rhesymau am benderfyniadau CSC lle roedd angen.</p> <p>MH – Syniad da, ffordd o flaenoriaethu adnoddau cyfyngedig</p> <p><u>Parciau Gwledig</u></p>	<p>CF</p>

MH – Roedd Neil Thomas wedi darparu strwythur tîm a chyfrifoldebau allweddol. Dylid rhoi gwybod am unrhyw broblemau i Neil. Y prosiect presennol yw gwelliannau mynediad yn Llyn Llech Owain.

Gatiau Ceffylau sy'n cau ohonynt eu hunain

CF – Ni fydd y gatiau ceffylau a osodir yn rhai sy'n cau ohonynt eu hunain, ond os gwneir cais am rai o'r fath bydd yn rhaid iddynt gyrraedd neu ragori ar yr amser cau a argymhellir gan BHS.

Adroddiad Blynyddol

MH – roedd yr adroddiad wedi'i gwblhau ac roedd angen ei ddsbarthu i'r aelodau er mwyn gwneud newidiadau cyn y cyfarfod nesaf.

Teithio Llesol

MH – roedd yn siarad â Simon Charles am well ymgysylltiad â'r Fforwm Mynediad Lleol ynghylch Teithio Llesol. Yng nghyfarfod Cadeiryddion y Fforwm Mynediad Lleol, yn y drafodaeth tynnwyd sylw at dynhau rolau'r Fforwm Mynediad Lleol a gwneud ymgynghori ynghylch Teithio Llesol yn orfodol.

KB – a fydd ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch Teithio Llesol yn cael ei wella hefyd? Roedd yn debyg bod y cyhoedd yn gyffredinol yn anhapus â lefelau'r ymgynghori lleol (gwybodaeth Sustrans).

MH – ymholiad dros erthygl ynghylch cyllid Llwybr Dyffryn Tywi

CF – darllenodd ddiweddariad ac esboniad am Lwybr Dyffryn Tywi ynghylch ymholiad MH - roedd cyllid cyfalaf CSC wedi lleihau ac nid wedi cael ei dynnu, roedd mwy o angen sicrhau cyllid allanol.

Dangosyddion Perfformiad

RL - diweddariad ar nod 2021 ar gyfer cwblhau'r Dangosydd Perfformiad.

CF – anelu at arolwg rhwydwaith o 100% pan fydd CAMSweb yn fyw, dim angen Dangosydd Perfformiad. Os bydd 100% o'r arolwg yn cael ei oedi, byddwn yn ystyried Dangosydd Perfformiad eleni, ond yn ddelfrydol 100% eleni a 5% o'r Dangosyddion Perfformiad wrth fynd ymlaen.

RL – ymwybodol o ymrwymiad blaenorol

CF – cyn ymrwymiad arolwg o 100%, nid yn ddefnydd da o adnoddau gwirfoddol i wneud y ddau.

KB – pa mor hir y mae CSC yn meddwl y bydd yn ei gymryd?

CF - yn dibynnu ar nifer y gwirfoddolwyr. Darperir hyfforddiant i fod mor effeithlon â phosibl.

JG – A fyddai'n bosibl dechrau hyfforddi cyn amser.

<p>CF – roedd trafodaeth gyda Chymdeithas y Cerddwyr mewn perthynas â pharatoi pecyn hyfforddi pwrpasol wedi dechrau</p> <p>JG – Sut bydd RA yn hyfforddi ar gyfer llwybrau marchogaeth</p> <p>CF – Bydd RA yn hyfforddi yn unol â gofynion CSC, bydd hyfforddiant ar bob elfen o'r rhwydwaith ac asedau cysylltiedig, nid yw arbenigedd marchogol yn ofyniad allweddol i'r gwirfoddolwyr hyn na'r rhai sy'n eu hyfforddi.</p>	
<p>Eitem 4 – Swyddog Tir Comin</p> <p>AP – rhoddodd gyflwyniad llafar ar y Tir Comin yn CSC a'r modd roedd yn cael ei reoli.</p> <p>JG – bydd yn cofrestru ac yn darparu gwybodaeth am ba Dir Comin sydd â hawliau marchogaeth</p> <p>AP – bydd yr holl wybodaeth ar y cofnod papur ar gael ar-lein erbyn hyn. Mae gan Dir Comin Trefol a Metropolitan hawliau marchogol ym mhob achos. Yn anffodus, nid yw cofrestr CSC yn dal gwybodaeth ynghylch pa Dir Comin sy'n Drefol neu'n Fetropolitan.</p> <p>KB – Sut mae marchogion yn cael gwybod?</p> <p>AP – mae ganddo restr y bydd yn ei dosbarthu.</p> <p>MH – a oes map?</p> <p>AP - mae ganddo gopi digidol. Hapus i'w ddarparu i aelodau'r fforwm at ddibenion gwybodaeth. Bydd yn ei anfon at CF i'w roi i'r aelodau.</p>	<p>AP/CF</p>
<p>Eitem 5 – Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ddiwygio Mynediad</p> <p>CF – Roedd swyddog CNC wedi dweud nad yw'r adroddiad diwygio drafft a gynhyrchwyd ar gyfer y Gweinidog ar gael ar hyn o bryd i'r Fforwm Mynediad Lleol/cyhoedd edrych arno. Ymgynghorwyd â grwpiau arbenigol ar y copi drafft ac ystyriwyd sylwadau. Bydd y fersiwn derfynol yn cael ei chwblhau erbyn diwedd mis Mehefin, a dylid gallu ei dosbarthu i randdeiliaid ehangach ar ôl hynny.</p> <p>MH – cafodd sgwrs estynedig gyda CNC, i ddechrau am gymhlethdod ymgynghoriad LAF ARAG. Yr arwyddion oedd y byddai ail ymgynghoriad Fforwm Mynediad Lleol yn cael ei gynnal ond yr ohebiaeth ddiweddaraf yw nad oes bwriad i ymgysylltu ymhellach. Ymateb siomedig, ni fydd unrhyw sylwadau pellach yn cael eu hystyried. John Morgan yn trafod gyda CNC ar y pwnc.</p> <p>KB – i'w ddisgwyl.</p>	

Eitem 6 – Adroddiadau ar Faterion

RL – roedd ffigurau cynnal a chadw wedi gostwng, a hynny'n debygol o ganlyniad i brosiect arwyddbyst. Os na chaiff ffigurau arwyddbyst eu cyfrif, bydd problemau'n dal i godi. Roedd yn debygol mai mwy o ddefnydd o'r rhwydwaith oedd yr achos. Roedd effaith Covid yn gadarnhaol ac yn negyddol, ac roedd yn beth da bod y cyhoedd yn gwneud mwy o ddefnydd o'r rhwydwaith, yn rhoi'r ALI dan fwy o bwysau ac yn nodi'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau.

Roedd nifer y materion hŷn yn cynyddu, a ddangosai'r pwysau roedd y tîm oddi tano.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y dylid dyrannu digon o adnoddau ar gyfer rheoli rhwydwaith yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus, cydbwysedd anodd ar gyfer ALI a LIC

KB – Roedd LIC yn buddsoddi cymaint mewn cerdded a beicio, roedd dyletswydd statudol arni i wneud gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn, a oedd yr un pwysigrwydd yn cael ei roi i ddyletswyddau statudol ar gyfer Hawliau Tramwy Cyhoeddus? Nid yw'r buddsoddiad yn cyfateb.

JG – rhywbeth y gallai Cadeirydd Cadeiryddion y Fforwm Mynediad Lleol ei godi, dim digon o fuddsoddiad mewn dyletswyddau statudol presennol.

HE - Ni allaf wneud sylwadau ar hyn o bryd, ond erbyn y cyfarfod nesaf dylai materion ariannu fod yn gliriach.

RL – a oes fforwm lle mae aelodau'n cyfarfod â LIC i drafod materion Hawliau Tramwy Cyhoeddus a mynediad?

MH - bydd yn e-bostio John Morgan am y mater, ac yn gofyn i sylw Llywodraeth Cymru gael ei dynnu ato

RL - roedd y flwyddyn ddiwethaf wedi tynnu sylw at werth mynediad i'r awyr agored, corfforol a meddyliol.

MH – roedd Sir Gaerfyrddin yn gwneud defnydd da o'r adnodd oedd ar gael ond dylid codi'r mater er budd pob ALI a'u gallu i gydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

RL – gan nad oedd ALI eraill yn darparu data, roedd yn anodd iawn herio penderfyniadau ariannu y llywodraeth ganolog.

CF – roedd prosiect arwyddbyst yn mynd i'r afael yn fwriadol â mater penodol; rydym yn ystyried bod y prosiect yn llwyddiant, fel roedd y gostyngiad cysylltiedig yn nifer y materion cyffredinol.

RL – darn da iawn o waith sy'n ddefnyddiol i bobl

KB – allai'r Fforwm Mynediad Lleol ddiolch yn swyddogol i'r Pennaeth Gwasanaeth?

Eitem 7 - Cyflawni Prosiectau 2020-2021

CF - Prosiect mawr o 134 o arwyddbyst ar lwybrau gyda data a oedd yn awgrymu eu bod yn agored ac ar gael. 11 o achosion lle gwrthodwyd eu gosod, rydym yn bwriadu mynd yn ôl a gosod gyda gorfodaeth yn ôl yr angen.

Bydd llwybr pob gallu yn Nyffryn y Swistir, llwyddiant da gyda chydweithio ochr yn ochr â Chyngor Gwledig Llanelli, yn cael ei hyrwyddo.

Oedi o ran cyflawni prosiect Cilffyrdd Cydweli, gan ei symud i 2021-22

Prosiect arwyddbyst cilffyrdd yn cael ei gyflawni yn lle hynny, 39 o arwyddbyst cilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig (BOAT), yn yr un modd llwybrau rydym yn ymwybodol eu bod ar agor ar sail y data sydd gennym.

MH – wedi cael adborth da ar brosiect arwyddbyst BOAT, pob un yn gadarnhaol, llongyfarchiadau am gyflawni'n llwyddiannus. Prosiectau 2021-22?

CF - Prosiectau 2021-22 yn eu camau cynnar, rydym wedi datblygu blaenraglen waith i flaenoriaethu a chyllidebu prosiectau cynnal a chadw a gwella strategol, hefyd rhaglen pontydd cyfalaf i gynnal asedau ar y rhwydwaith. Mae cynigion cymunedol yn cael eu hystyried ochr yn ochr â chynigion yr ALI; yn yr achosion hyn mae ALI yn gofyn am wirfoddolwyr o gymunedau i helpu gyda gwaith cynnal a chadw.

KB – pa ardaloedd?

CF – amrywiol, Cydweli, Llanybydder, Tŷ-croes, rhai ledled y sir, un arall i'w ychwanegu.

KB – annog beicwyr i ymgysylltu â'u Cynghorau Cymuned.

MH – bydd hyrwyddo'n bwysig.

Eitem 8 - Ailethol Fforwm Mynediad Lleol

MH – pwerau arbennig i ymestyn tymor y Fforwm Mynediad Lleol tan fis Rhagfyr 2021

CF – Dechrau'r broses yn yr hydref yn hytrach na Rhagfyr, ddim am ei adael yn rhy hwyr.

MH - Unrhyw wrthwynebiad i ymestyn y tymor?

Dim

MH - wedi cynnig

JG - wedi eilio

Eitem 9 – Unrhyw Fater Arall

CF – canllawiau newydd Llywodraeth Cymru yn ymwneud ag achosion lle cyfeirir Gorchmynion Addasu Mapiau Diffiniol at Pins os nad yw ALI wedi gwneud

penderfyniad o fewn 12 mis. Gellir cyfarwyddo ALI i brosesu Gorchymyn, mae canllawiau'n rhoi cyfnod o 6 mis ar gyfer cwblhau'r cyfarwyddyd hwnnw.

MH - mae gan Sir Gaerfyrddin geisiadau â thros flwyddyn o gyfnod penderfynu statudol

CF - roedd llawer ond ni fyddant i gyd yn cael eu cyfeirio'n awtomatig, byddai'n rhaid i ymgeisydd Gorchymyn Addasu Mapiau Diffiniol fynd ati'n weithredol i gyfeirio ei gais. Os derbynnir cyfarwyddyd Pins, gallai hynny effeithio ar flaenoriaethu Gorchymynion.

CF – E-bost gan JG ynghylch Polisi Gorfodi, mae hwn yn ymrwymiad mewn Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, rydym ar ei hôl hi o flwyddyn oherwydd COVID, hwn fydd y darn mawr nesaf o waith ar ôl Strategaeth Farchogaeth.

CF – Strategaeth Farchogaeth – bydd holiadur yn cael ei lunio (i gynnwys marchogion, busnesau, defnyddwyr ffyrdd eraill, cynghorau cymuned, cynghorwyr), i fynd yn fyw ar ôl 'Purdah' am 4 wythnos. Bydd yn anfon at y Fforwm Mynediad Lleol mewn arolwg drafft i brofi'r cwestiynau a'r system. Y gobaith oedd cael strategaeth ddrafft erbyn mis Medi.

CF – Teithiau Cerdded Sirol – roedd e-bost wedi dod i law yn gofyn am ailgyflwyno rhai hen Deithiau Cerdded Sirol, ond doedd dim bwriad i wneud hynny ar hyn o bryd gan nad oedd capasiti yn y gwasanaeth. Nid oedd y llwybrau a waredwyd yn gynaliadwy nac yn werth ei hyrwyddo, ac nid yw'r sefyllfa wedi newid.

MH – Darganfod Sir Gâr – prosiect cadarnhaol yn rhoi gwybodaeth dda, adnodd twristiaeth gwych.

PM – Gwefan CNC yn dal gwybodaeth am gerdded a beicio y byddai'n werth ei chysylltu â Darganfod Sir Gâr.

JG – Roedd gan grwpiau Clwstwr Twristiaeth hefyd deithiau cerdded/llwybrau cymunedol y gellid cysylltu iddynt

MH – Byddai'n anfon awgrym at Martin Murray

KB - Nid yw llwybrau/cyfleoedd marchogaeth wedi'u cynnwys, mae'r rhain yn gwasanaethu cerddwyr a beicwyr hefyd. A ellid integreiddio mynediad marchogol i Darganfod Sir Gâr lle mae hefyd ar gael fel rhan o'r un gweithgaredd, i roi gwybod i'r cyhoedd am ehangder y cyfleoedd mynediad mewn safleoedd.

RL – hefyd byddai map lleoliad trosolwg yn helpu twristiaid i nodi lleoliad cyfleusterau a'u hagosrwydd at ei gilydd.

MH – bydd yn bwydo'r ddau awgrym yn ôl.

MH

MH

DS – wedi derbyn e-bost parthed: cyfreithlondeb beicio caniataol ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Roedd gan hyn oblygiadau sylweddol ar gyfer llwybrau defnydd a rennir.

MH – bydd yn codi hyn gyda'r Pennaeth Gwasanaeth.

PM – Ymgynghoriad Cynllun Adnoddau Coedwigaeth CNC, cynigion rheoli am y 10 mlynedd nesaf, gallu dosbarthu i'r aelodau i wneud sylwadau arnynt, dyddiad cau 22^{ain} Mai 21.

MH

MH – dim llawer iawn am Hawliau Tramwy Cyhoeddus, gall ofyn am fwy o fanylion am Hawliau Tramwy Cyhoeddus ac yn gweithio gydag ALI i dynhau'r cynllun.

PM - Gwerthoedd lechyd a Llesiant yn dod ag ystyriaethau Cynllun Gwella Hawliau Tramwy i mewn.

KB – hefyd yn meddwl bod Hawliau Tramwy Cyhoeddus a mynediad cyhoeddus yn fach iawn, ac roedd yn eithaf anodd dod o hyd i'r ddolen i'r ymgynghoriad.

MH

MH – bydd yn dosbarthu dolen ymgynghori â'r Fforwm Mynediad Lleol gyda sylwadau i'r aelodau gyfrannu cyn cyflwyno.

MH – Ymgynghori ar y gyllideb – ymateb y fforwm yn syml oedd blaenoriaethu a chydabod y tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

MH - Ymgynghoriad Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – byddai'n dosbarthu i'r Fforwm Mynediad Lleol i gael sylwadau.

JG – eto, cerdded a beicio, dim ystyriaeth farchogol.

MH – hefyd yn negyddol tuag at ffermio

MH – Gwnaeth y Fforwm Mynediad Lleol sylwadau ar ymgynghoriad drafft y Bil Amaethyddol, gan godi diffyg ystyriaethau Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Mynediad fel pryder.

CF

PAWB

MH – Cod Cefn Gwlad Newydd, a yw bellach ar wefan CSC?

CF – dolen i dudalen Cod Cefn Gwlad ar wefan CSC.

MH – cod yn cynnwys gofyniad am saeth ddu ar gefndir gwyn ar gyfer Ffyrdd Diddosbarth, a yw Priffyrdd yn gwybod am hyn?

CF – bydd yn trosglwyddo i'r Priffyrdd er gwybodaeth

MH – Archwiliad Llwybrau Beicio Mynydd wedi'i ddosbarthu gan y tîm marchnata i'r aelodau ymateb iddo. Byddid yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm Mynediad Lleol yn y dyfodol.

MR – Prosiect Mapio Ffyrdd Gwyrdd Cenedlaethol TRF – wedi dod â mwy o weithgarwch i'r ardal. Wedi rhoi bod i ryw faint o ymateb negyddol gan nad yw'r cyhoedd yn gwerthfawrogi statws Ffyrdd Diddosbarth a'r hawl gyfreithlon i feicio modur. Bydd TRF yn rhoi arian cyfatebol i unrhyw weithgareddau/prosiectau ymgysylltu â'r cyhoedd neu arwyddbyst i wella cysylltiadau. A ellid sefydlu cyfarfod Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd neu un tebyg i archwilio cyfleoedd.

MH – yn awyddus i ail-ddechrau cyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd.

MH/MR

PM - CNC wedi gweld cynnydd mewn defnydd, achosion rheolaidd o dresmasu felly byddai arwyddbyst i'w croesawu.

MR – bydd yr holl godi arian TRF lleol yn cael ei neilltuo i hyn ac yn cael arian cyfatebol gan y brif swyddfa.

MH

MH – Byddai GLASS yn debygol o fod yn awyddus i ymuno â'r cynllun

KB - syniad gwych, gwella cysylltiadau â marchogion ceffylau yn flaenoriaeth uchel i feicwyr modur.

JG – Gallai prosiect GIS ar gyfer Brechfa elwa o wybod pa lwybrau sydd ar agor ac ar gael.

MH - parhau i sgwrsio drwy e-bost gyda golwg ar drefnu cyfarfod.

KB - y sefyllfa bresennol gyda Gorchymyn parcio Marchogol Pen-bre?

MH – byddai'n gofyn i'r Pennaeth Gwasanaeth.

Eitem 11 - Y Cyfarfod Nesaf

Cytunwyd ar Orffennaf 8^{fed}.